

Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan

Bwletin Newyddion Llais Cleifion

Prosiect y Gaeaf

Mae'r CIC yn ymgymryd â Phrosiect y Gaeaf ar hyn o bryd er mwyn cael adborth ystyrion gan gleifion yn ystod misoedd 'pwysau'r gaeaf' ac i alluogi'r Bwrdd Iechyd i ymateb mewn ffordd ragweithiol i unrhyw faterion a all godi. Cynhelir y prosiect rhwng mis Ionawr 2019 a mis Mawrth 2019. Hyd yn hyn, mae'r aelodau wedi cael adborth gan tua 394 o gleifion!

Isod nodir rhai o'r themâu allweddol:

- Aros yn hir mewn ambiwlans
- Aros yn hir ar droli
- Mannau eistedd yn anghyfforddus
- Diffyg lle
- Staff yn wych, prysur drwy'r amser
- Doctoriaid a nyrsys yn garedig iawn
- Cyfathrebu gwael
- Adborth da o ran preifatrwydd ac urddas
- Adborth da o ran argaeledd bwyd a diod

Prosiect Digartref

Bydd y CIC yn cychwyn prosiect digartref yn ystod yr wythnosau nesaf. Bydd y prosiect yn rhoi'r cyfle i unrhyw berson sy'n cysgu ar y stryd, sy'n ddigartref neu sy'n wynebu risg o fod yn ddigartref roi adborth ar eu profiad o ofal iechyd; gan gynnwys rhwystrau i wasanaethau, yn ogystal â'r math o wasanaeth pan gaiff ei ddefnyddio.

Staff Newydd

Croesawodd y CIC aelod newydd o staff i'r Tîm ym mis Hydref 2018, sef Mr Luke Taylor, sy'n ymuno â ni fel Cynorthwydd Gweinyddol. Mae gan Mr Taylor gefndir gwaith mewn Gofal Iechyd Parhaus a Fferylliaeth.

Gwobrau Cydnabod Staff y GIG

Yng Ngwobrau blynyddol Cydnabod Staff Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, cyflwynodd ein Cadeirydd, George Clemow, wobwr CIC i Tanya Strange MBE, Nyrs Gymuned Adrannol o'r Bwrdd Iechyd, am ei rhan yn y fenter 'Ffrind i mi'.



Ffrind i mi

Mae gan Ffrind i mi dros 80 o wirfoddolwyr yn gweithio mewn ysbytai a chymunedau yng Ngwent ar hyn o bryd. Mae partneriaethau ag ysgolion wedi arwain at gynnydd mewn cyfeillio rhwng y cenedlaethau mewn cartrefi gofal, llety gwarchod a wardiau ysbyty. Mae hyn wedi dangos buddiannau cadarnhaol i blant a phobl hŷn.

Eiriolaeth

Yn ystod 2018 (mis Ionawr i fis Rhagfyr), cafodd y Gwasanaeth Eiriolaeth ar gyfer Cwynion 267 o gwynion. Isod nodir y 5 prif faes mewn iechyd gofal sy'n amlwg mewn cwynion:

- Gofal Sylfaenol – Practis Cyffredinol
- Obstetreg a Gynaecoleg
- Trawma ac Orthopaedeg
- Gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion
- Gofal yr Henoed

Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

Cynhelir ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2018/2019 ddydd Mercher 3 Ebrill 2019 yng Ngwesty'r Parkway, Cwmbrân Drive, Cwmbrân, NP44 3UW. Mae croeso i aelodau'r cyhoedd ymuno â ni. Cynhelir y diwrnod rhwng tua 9:30am - 4:00pm.

Diolch

Wrth nesáu at ddiwedd blwyddyn ariannol 2018/19, hoffwn ddiolch yn fawr i holl aelodau CIC am eu hymrwymiad a'u cefnogaeth drwy gydol y flwyddyn.

Angela Mutlow *Prif Swyddog*

Ffarwelio

Yn anffodus, byddwn ni oll yng Nghyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan yn ffarwelio â Mrs Pauline Morris, ein Cynorthwydd Gweinyddol ddiwedd mis Mawrth 2019. Hoffem ddiolch i Pauline am ei holl waith caled dros y flwyddyn ddiwethaf a dymuno pob llwyddiant iddi i'r dyfodol.

Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan
6-8 William Brown Close
Tŷ Raglan
Parc Busnes Llantarnam
Cwmbrân
NP44 3AB
Ffôn: 01633 838516

E-bost: enquiries.aneurinbevanhc@waleschc.org.uk

Fformatau hygyrch

Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni. Mae ein cyhoeddiadau hefyd ar gael i'w lawrlwytho a'u harchebu o'n gwefan.

www.patienthelp.wales.nhs.uk/aneurinbevan